

## Diogelwch dŵr/atal boddi

Y Pwyllgor Deisebau | 19 Mawrth 2019

Petitions Committee | 19 March 2019

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-868

Teitl y ddeiseb: Diogelwch Dŵr/Atal Boddi ac effeithiau Sioc Dŵr Oer i'w haddysgu ym mhob Ysgol yng Nghymru

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gynnwys Diogelwch Dŵr/Atal Boddi ac effeithiau sioc dŵr oer i'w haddysgu drwy'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru.

Yn 2016, gwelsom lansiad y strategaeth diogelwch dŵr gyntaf erioed yn y DU, sy'n anelu at leihau 50% o farwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr erbyn 2026. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar gydweithio, ymwybyddiaeth, addysg ac atal. Mae angen i Gymru ymateb i'w chefnogi.

Mae teuluoedd Cameron Comey, Luke Somerfield, Kieran Bennett-Leefe, Robert Mansfield a Jem Pendragon oll yn cefnogi'r ddeiseb hon er cof am eu meibion a gollwyd mewn dŵr.

Mae cannoedd o oedolion a phlant yn boddi'n ddamweiniol bob blwyddyn yn y DU ac Iwerddon, ac mae Cymru, gyda'i hafonydd a'i llynnoedd niferus a'i harfordir gwyllt yn dioddef hefyd. Mae addysg ac atal yn allweddol i ddiogelu ein cymunedau rhag achosion diangen o fodd.

Mae'r ddeiseb hon hefyd yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau iach ac addysgedig ar lawer o'n dyfrffyrdd agored yng Nghymru drwy hyrwyddo digwyddiadau yn genedlaethol ac yn lleol, lle gall pobl ifanc a'r cyhoedd gael mynediad at ddigwyddiadau sydd wedi'u trefnu er mwyn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol, gweithgar a diogel gyda chlybiau/sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgareddau dŵr.

Rydym hefyd yn cydnabod bod toriadau gan awdurdodau lleol i hygyrchedd nofio i bob disgybl (drwy bwysau llywodraeth ganolog) a Bagloriaeth Cymru newydd ar ddiogelwch dŵr yn fwlch rhy eang i sicrhau neges addysgol gyson i bawb. Mae gan Gymru dair strategaeth fras (Ein Dyfodol Iach, Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) sydd â chysylltiadau ag atal anafiadau, ac felly lleihau boddi.

## 1. Cynnwys y cwricwlwm

Yn ei llythyr at y Pwyllgor, mae'r Gweinidog Addysg yn nodi sefyllfa bresennol diogelwch dŵr mewn addysg gyfredol, yn addysg gorfforol o dan yr elfen 'gweithgareddau anturus' a thrwy Addysg Bersonol a Chymdeithasol drwy ddysgu am ddiogelwch personol drwy thema iechyd a lles emosiynol. Mae hefyd yn datgan bod cyfleoedd o fewn Bagloriaeth Cymru yn ymwneud ag iechyd a lles.

## 2. Cwricwlwm Newydd i Gymru (i'w gyflwyno o fis Medi 2022)

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r proffesiwn addysg i ddatblygu cwricwlwm newydd, yn dilyn adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson o drefniadau cwricwlwm ac asesu a'i adroddiad dilynol, [Dyfodol Llwyddiannus](#) (Chwefror 2015).

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r **pedwar diben** o'r cwricwlwm newydd fel yr argymhellwyd gan yr Athro Donaldson. Y rhain yw y bydd yr holl blant a phobl ifanc sy'n cwblhau eu haddysg:

- Ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau.
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.
- Dinasyddion gwybodus, moesegol, sydd yn barod i fod yn ddinasyddion o Gymru a'r byd.
- Unigolion iach hyderus sydd yn barod i arwain bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi mabwysiadu'r **chwe Maes Dysgu a Phrofiad** a argymhellwyd gan yr Athro Donaldson:

- Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles**
- Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno'n statudol ym mis Medi 2022. Bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno i ddechrau mewn ysgolion cynradd a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2022, cyn cael ei gyflwyno i flwyddyn 8 ar gyfer 2023, blwyddyn 9 yn 2024, ac yn y blaen wrthi'n garfan symud drwy'r ysgol.

Cyn iddo gael ei gyflwyno'n statudol, bydd y cwricwlwm newydd ar gael i ysgolion adborth yn ôl, profi a mireinio o fis Ebrill 2019, cyn i fersiwn derfynol gael ei gyhoeddi y gall ysgolion gael gafael arni o fis Ionawr 2020. Mae rhagor o wybodaeth am y broses ar gael yn [yr erthygl blog yma](#).

Mae ysgolion arloesi yn cydweithio â Llywodraeth Cymru, consortia addysg rhanbarthol ac arbenigwyr a chynghorwyr drwy chwe Gweithgor – un ar gyfer pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd. Mae'r grwpiau hyn wedi llunio **datganiadau 'Beth sy'n Bwysig?'** yn nodi'r syniadau diweddaraf ar gynnwys y cwricwlwm a phynciau allweddol. Y fersiynau drafft diweddaraf a gyhoeddwyd o'r rhain oedd mis [Mai 2018](#).

Yn ei llythyr, mae'r Gweinidog yn nodi y bydd datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles (nad yw wedi'i gyhoeddi eto) yn cefnogi'r ddarpariaeth o nofio drwy nodi bod angen i ddysgwyr brofi cyfleoedd i fod yn weithgar yn gorfforol mewn amrywiaeth o amgylcheddau, gan gynnwys o amgylch dŵr, a bod angen iddynt wneud penderfyniadau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac amgylcheddau. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi nad yw'r cwricwlwm newydd yn darparu rhestr gynhwysfawr o gynnwys manwl a bod yn rhaid iddo roi hyblygrwydd i weithwyr proffesiynol ddewis y cynnwys penodol sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr.

### 3. Gweithgareddau'r Cynulliad

Fel rhan o'u gwaith craffu parhaus ar ddiwygio cwricwlwm Llywodraeth Cymru, clywodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg dystiolaeth gan [y Gweinidog Addysg ar 10 Ionawr 2019](#). Cyn hynny, gofynnodd y Pwyllgor am farn rhanddeiliaid ar gynnydd y cwricwlwm newydd. Roedd yr [ymateb gan Chwaraeon Cymru](#) yn dweud er eu bod nhw'n falch gyda chynnydd y cwricwlwm ar y cyfan, roeddent wedi cael rhai pryderon ynghylch pa mor amlwg yw gweithgarwch corfforol a chwaraeon ar draws y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles ac amlygrwydd diogelwch dŵr a nofio fel sgiliau bywyd a:

there are concerns over the profile of Swimming from the perspective of Water safety in the current draft version [of the What Matters? statement].

Pan holwyd y Gweinidog ynghylch hyn, dywedodd:

With regard to swimming, there is reference to swimming and water safety, so there is nothing to preclude schools from pursuing swimming as a physical activity within the curriculum. So, I would argue that that is there.

Aeth ei swyddog ymlaen i esbonio:

The health and well-being AoLE will mean that learners need to be able to be physically active in and around water—so, swimming—as part of being physically active, and to be able to make safe decisions around situations in environments, including water. So, it is there.

I think the thing that we'll probably need to look at again is the guidance that goes with it and interpreting that, but, again, this is something we'll keep in touch with Sport Wales on. Sport Wales have been really close to this process and have been really close to us developing that AoLE, so it is something we'll look at with them. But, I think our view, and the view of the AoLE, is that it's there. It might be that, actually, when we come out we'll need to be clearer in terms of the supporting information that goes with it.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.